Rhagfyr 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Dogfen ymgynghori

Strategaeth ddrafft i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2017-2020

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn a'ch sylwadau ar strategaeth ddrafft i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020. Cyhoeddir y strategaeth derfynol yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Sut i ymateb

Dylech ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb erbyn **27 Ionawr 2017**.
Gallwch gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Fel arall, anfonwch eich ymateb atom yn ysgrifenedig drwy'r post neu drwy e-bost gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ymgynghoriad ar y Strategaeth
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

E-bost post@archwilio.cymru
Ffôn 02920 320 500

Cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd a anfonir yn awtomatig gan eich system TG ei ystyried yn rhwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru ar ei ben ei hun.

Caiff data personol eu prosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os caiff data o'r fath eu cynnwys mewn cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr achosion penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y caiff gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus ei datgelu ond y caiff enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd eu cadw'n gyfrinachol.

Rhagair

Tua diwedd 2015-16, bu ein Bwrdd a'n Huwch Dîm Arwain yn cydweithio i lunio gweledigaeth ar gyfer y math o swyddfa archwilio y bydd ei hangen ar Gymru ymhen tua degawd. Crisialwyd y weledigaeth ar ffurf y 'penawdau' dymunol o adolygiad allanol o'r sefydliad a gynhelir yn 2025, sef, y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn:

- sefydliad effaith uchel sy'n cael adborth ardderchog gan randdeiliaid;
- gwneud y defnydd gorau posibl o ddata a thechnoleg er mwyn symleiddio ei phrosesau archwilio a'i phrosesau busnes;
- sefydliad enghreifftiol a chanddo systemau mewnol darbodus, cadarn ac effeithiol; ac
- yn cael ei pharchu a'i chydnabod yn rhyngwladol fel arweinydd ym maes datblygu a chyflawni archwiliadau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r strategaeth a ddylai fod wrth wraidd ein dull archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y tair blynedd nesaf (2017-2020), yn ein barn ni, fel cam cyntaf y gwaith o wireddu'r weledigaeth honno.

Wrth baratoi'r strategaeth, rydym wedi talu sylw arbennig i ddeall newidiadau sydd ar fin digwydd i'n hamgylchedd gweithredu a llunio ein hymateb i'r ffactorau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf, yn ein barn ni.

Mae'r strategaeth ddrafft yn adlewyrchu ein penderfyniad i beidio â bod yn hunanfodlon, sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau allanol a pharhau i addasu a gwella'r ffordd rydym yn gweithio, fel ein bod yn y sefyllfa orau i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o arian cyhoeddus.

Fodd bynnag, cyn mynd ati i nodi'n fanylach sut y dylem geisio cyflawni hyn drwy ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18, rydym am brofi'r tybiaethau rydym wedi'u gwneud a cheisio barn ein gwahanol randdeiliaid. Gobeithio y byddwch yn gallu rhoi o'ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon ac ymateb.

Edrychwn ymlaen at gael eich barn ar ein dull gweithredu arfaethedig.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Garner
Y Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	6
Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru	7
Ein nod a'n hamcanion	8
Ein hamgylchedd gweithredu	9
Ein hymateb	13
Crynodeb a chwestiynau'r ymgynghoriad	17

Cyflwyniad

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio i'w ddyfarnu bob blwyddyn. Trosglwyddir elfennau sylweddol o'r arian hwn gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Pan fyddwn yn cyflawni archwiliadau o'r sector cyhoeddus, byddwn yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn trafod materion fel:

- **rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy);**
- **priodoldeb (sut y mae gwaith cyhoeddus yn cael ei gyflawni); a**
- **gwerth am arian.**

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 250 o aelodau o staff.

4 Erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd Gynllun Blynyddol ar gyfer cyflawni eu rhaglenni gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[1].

5 Yn y Cynllun rydym hefyd yn darparu'r canlynol:

a disgrifiad o'n nod a'n hamcanion cyffredinol;

b asesiad o'r ffactorau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith a chyflawni ein nod a'n hamcanion dros y tair blynedd nesaf, yn ein barn ni; ac

c amlinelliad o'r themâu strategol lefel uchel sy'n sail i'n Cynllun mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu.

6 Cyn cwblhau ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18, rydym am geisio barn ein gwahanol randdeiliaid ar y canlynol: ein nod a'n hamcanion arfaethedig; ein hasesiad o'n hamgylchedd gweithredu; a'r pedair thema strategol lefel uchel rydym yn cynnig y dylent fod yn sail i'n gwaith arfaethedig.

7 Gobeithio y byddwch yn gallu rhoi o'ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon ac ymateb.

1 Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau dros dair blynedd a fframwaith o fesurau a thargedau perfformiad allweddol – gweler ein **Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17** am ragor o wybodaeth.

Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru



Ein nod a'n hamcanion

8 Crynhoir ein nod cyffredinol a'n pedwar amcan allweddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020 yn yr arddangosyn isod.

9 Ein nod yw sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth. Fe'i mynegir fel canlyniad yr ydym yn gyfrannwr allweddol tuag ato oherwydd ein statws hollol annibynnol, ein harbenigedd proffesiynol a'n hawliau helaeth i weld gwybodaeth drwy bwerau archwilio a swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

10 Mae ein tri amcan cyntaf yn canolbwyntio ar gyflawni nod triphlyg gwaith archwilio yn effeithiol – sef rhoi sicrwydd, rhoi cipolwg a hyrwyddo gwelliannau.

11 Mae ein pedwerydd amcan yn ategu'r tri cyntaf, sef: er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o safon uchel, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad uchel ei barch a redir yn dda ac sy'n sicrhau gwerth am arian ac yn cynnig amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif



Cwestiwn 1 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n nod a'n hamcanion allweddol arfaethedig?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

Ein hamgylchedd gweithredu

12 Yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw'r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein nod a'n hamcanion dros y tair blynedd nesaf.

Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol

13 Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wynebu gostyngiadau mewn cyllidebau blynyddol mewn termau real, tra'n ceisio bodloni disgwyliadau a galw cynyddol y cyhoedd a pharhau i ddarparu gwasanaethau a gwella'r modd y cânt eu darparu.

14 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, mae'r pwysau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hwynebu ers 2010-11 yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Nododd bron pob un a ymatebodd i arolwg o arweinwyr yn y sector cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth honno fod pwysau ariannol yn un o'r tair her fwyaf sy'n eu hwynebu yn y dyfodol. Nododd yr adolygiad o wariant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2015 y bydd toriadau pellach mewn gwariant yng Nghymru, gyda'r gyllideb gyffredinol yn lleihau £0.5 biliwn rhwng 2015-16 a 2019-20. Gan fod arian cyfalaf wedi'i ddiogelu, mae'r gostyngiad yn cynnwys arian refeniw bron yn llwyr. At ei gilydd, yn ystod y cyfnod o gyni ariannol rhwng 2010-11 a 2019-20, gwelir gostyngiad o £1.8 biliwn (11 y cant) ar sail gyfatebol.

15 Bydd angen i wasanaethau cyhoeddus barhau i wneud newidiadau radical i'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn iddynt adeiladu'n effeithiol ar y dull diwygio sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Gan fod llawer o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn disgwyl gwneud toriadau mwy sylweddol i wasanaethau, mae angen dull gweithredu mwy cynhwysfawr a hirdymor er mwyn lliniaru effeithiau ar y cyhoedd. Mewn adroddiad diweddar ar Gydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru, daethom i'r casgliad bod awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster i ddatblygu a chyflawni'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau mor gyflym ag sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Yn yr un modd, ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru, nid yw'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflawni eu rhwymedigaeth statudol i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n addas i'w gymeradwyo gan y Gweinidog eto.

Mae bellach yn ofynnol i drefniadau llywodraethu fod â chwmpas ehangach

16 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod gofynion cyfreithiol pellach ar y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy[2]. Mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant ac wedyn gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion hynny[3].

17 Y saith nod llesiant yw:

- a Cymru lewyrchus
- b Cymru gydnerth
- c Cymru iachach
- ch Cymru sy'n fwy cyfartal
- d Cymru o gymunedau cydlynus
- dd Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- e Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

18 Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant, gan gynnwys drwy baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant lleol, cynllun llesiant lleol ac adroddiadau cynnydd blynyddol.

19 Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a daeth y dyletswyddau llesiant ar gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Lleol i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n rhaid pennu a chyhoeddi amcanion llesiant cyntaf cyrff rhestredig erbyn 1 Ebrill 2017. Wedyn bydd yn ofynnol i gyrff rhestredig gyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni eu hamcanion, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

Mae'r dirwedd wleidyddol a'r dirwedd bolisi yn parhau i ddatblygu

20 Mae amrywiaeth eang o ffactorau polisi a ffactorau gwleidyddol yn debygol o ddylanwadu ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

2 Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
3 Am ragor o wybodaeth gweler **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Goblygiadau canlyniad refferendwm yr UE

21 Er ei bod yn anodd ar hyn o bryd asesu'r effaith y caiff 'Brexit' ar ein gwaith yn llawn, gallwn fod yn weddol sicr y daw cyllid amaethyddol yr UE[4] a'r gwaith archwilio sy'n gysylltiedig ag ef i ben, gyda'r cyllid hwnnw yn cael ei ddisodli, o bosibl, gan drefniadau cyllido amaethyddol amgen y bydd angen eu harchwilio.

Newidiadau i'r dirwedd ddatganoli

22 Mae Bil Cymru yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd[5] a disgwylir iddo newid ffurf datganoli o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau. Gallai cyrff cyhoeddus newydd gael eu creu o dan y model newydd y gallai fod angen iddynt gael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n bosibl y bydd angen ymestyn cwmpas ein hastudiaethau i gynnwys meysydd gwasanaeth datganoledig newydd.

Datganoli cyllidol

23 Caiff rhai pwerau trethu a benthyca eu trosglwyddo o San Steffan i Gymru erbyn 2018[6]. Bydd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith archwilio newydd mewn perthynas ag Awdurdod Refeniw Cymru[7], a fydd yn gyfrifol am gasglu trethi datganoledig Cymru, gan gynnwys archwilio Datganiad Treth ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Y gofyniad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar

24 Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dwyn ymlaen y terfynau amser ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru erbyn 2020-21[8]. Caiff y broses hon gryn effaith ar y defnydd a wneir o adnoddau gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan y bydd y terfynau amser ar gyfer cwblhau archwiliadau yn cael eu gostwng o dri i ddau fis a gan y byddant yn gorgyffwrdd â'r terfynau amser ar gyfer archwiliadau llywodraeth ganolog a chyrff y GIG.

Diwygiadau i drefniadau arian grant ac ardystio grantiau Llywodraeth Cymru

25 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n flaenorol ei bod yn bwriadu adolygu'r ffordd y caiff arian grant a roddir i awdurdodau lleol yng Nghymru ei archwilio. Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad lefel uchel o'r broses bresennol ac maent wedi nodi bod cryn le i wella sicrwydd a gwerth am arian drwy ailffocysu'r rhesymeg archwilio.

4 Deunydd darllen cysylltiedig: **What will Brexit mean for Wales?** Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 28 Gorffennaf 2016.
5 Ceir rhagor o wybodaeth am hynt y Bil ar **wefan Senedd y DU**.
6 O dan Ddeddf Cymru 2014.
7 O dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.
8 Y naill o 30 Mehefin a'r llall o 30 Medi yn 2016-17, i 31 Mai a 31 Gorffennaf yn 2020-21, drwy ddiwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

26 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth wedi arwain at ddigideiddio mwy a mwy o brosesau darparu gwasanaethau, mwy o fynediad cyhoeddus at ddata a chyfleoedd newydd i gyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill, a ffyrdd newydd o wneud hynny. Mae trawsnewid digidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ystyrlon i'r rhai sy'n eu defnyddio[9].

'Mae gan bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu, a'r dulliau o gynnig y gwasanaethau hynny, yn ymateb i esblygiad cymdeithas ac yn aros yn berthnasol.'

Digidol yn Gyntaf, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2015

27 Nid oes i gymdeithas fwyfwy rhwydweithiol oblygiadau i'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym yn unig. Mae hefyd yn cael cryn effaith ar asiantaethau archwilio. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â chyrff adolygu allanol eraill, sicrhau ei bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau technolegol a'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy, a manteisio ar ffyrdd newydd o gasglu gwybodaeth, cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau a chodi ymwybyddiaeth o'u gwaith a chynyddu diddordeb ynddo cymaint â phosibl.

28 Cynyddodd argaeledd gwasanaethau band eang cyflym iawn i gartrefi yng Nghymru o 55 y cant yn 2014 i 79 y cant yn 2015, sy'n golygu bod Cymru yn yr ail safle ar ôl Lloegr (84 y cant) ymhlith gwledydd y DU[10]. Fodd bynnag, mae'n rhaid cadw dulliau technoleg isel mwy sefydledig o gyfathrebu ac ymgysylltu o hyd er mwyn sicrhau cynhwysiant a gan fod cyfran sylweddol o gartrefi yn methu â chael hyd yn oed fand eang cyflymder safonol (mwy na 10Mbit/s) o hyd.

Cwestiwn 2 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n hasesiad o'r ffactorau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros y tair blynedd nesaf?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

9 Am ragor o wybodaeth gweler **Digidol yn Gyntaf, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2015**.
10 Ffynhonnell: **Connected Nations Report 2015**, Ofcom, Rhagfyr 2015.

Ein hymateb

29 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu, rydym yn cynnig y dylai pedair thema strategol lefel uchel ategu ein Cynllun ar gyfer cyflwyno ein rhaglenni gwaith yn ystod 2017-18, ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017 a 2020.

Parhau i gyflawni ein gwaith archwilio gyda phwyslais ar gyni a symleiddio ein prosesau busnes

30 Byddwn yn parhau i roi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd atgyfnerthu rheolaeth ariannol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau y caiff adnoddau cyhoeddus ac asedau eu defnyddio yn fwy effeithiol ac effeithlon. Drwy ein gwaith archwilio, lle y bo'n briodol, byddwn yn canolbwyntio ar helpu i drawsnewid gwasanaethau a helpu cyrff cyhoeddus i ymdopi ag effeithiau gostyngiadau mewn cyllid a llwyddo er gwaethaf y gostyngiadau hynny.

31 Bydd agweddau allweddol ar ein gwaith yn cynnwys y canlynol:

- a parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- b darparu triniaeth archwilio gadarn mewn meysydd lle y gallwn nodi a mesur arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd posibl;
- c ystyried cryfder trefniadau rheoli ariannol ac asesu pa un a ellir cyflawni cynlluniau arbedion;
- ch argymell camau gweithredu ymarferol sy'n gyson â datblygu cynaliadwy er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau;
- d archwilio prosiectau yn gyflymach ac ar gam cyflawni cynharach fel y gallwn edrych ymlaen a nodi'r materion a'r heriau allweddol sydd angen eu rheoli; a
- dd sicrhau bod ein rhaglen archwilio yn parhau i fod yn hyblyg fel y gallwn ymateb yn gyflym i faterion a ddygwyd i'n sylw.

32 At hynny, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn sefydliad cynaliadwy a redir yn dda sy'n dangos gwerth am arian. Fel y nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2017-18, daw tua dwy ran o dair o gyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o weddill cyllid Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Ar adeg pan fo cryn dipyn o gyfyngiadau ariannol, mae costeffeithlonrwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn dal i weithredu rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sy'n ceisio symleiddio ein prosesau busnes ymhellach.

Cwestiwn 3 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem barhau i gyflawni ein gwaith archwilio gyda phwyslais ar gyni a symleiddio ein prosesau busnes?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy

33 O dan Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried[11] i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus rhestredig wedi gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf wrth wneud y canlynol:

a pennu amcanion llesiant; a

b chymryd camau i gyflawni'r amcanion llesiant hynny.

34 Wrth gynnal archwiliadau o'r fath, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddwyd i'r corff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymgynghori â'r Comisiynydd.

35 Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddogfen ymgynghori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer eich archwiliad. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn cyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar y ffordd y dylai ein dull archwilio gael ei ail-lunio er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol allu cyflawni ei ddyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth hon yn effeithiol.

36 Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Archwilydd Cyffredinol bellach yn bwriadu gwahodd nifer fach o gyrff cyhoeddus i weithio gydag ef a Swyddfa Archwilio Cymru dros y misoedd nesaf er mwyn datblygu a phrofi dulliau archwilio newydd, gan ddefnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad.

37 At hynny, dros y flwyddyn i ddod bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu eu priod rolau o dan y Ddeddf. Cynhaliwyd cynhadledd ar y cyd yng Nghaerdydd ar 22 Tachwedd 2016, lle y gwnaethant nodi eu dull o gydweithio yn fanylach.

Cwestiwn 4 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem gyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

11 O leiaf unwaith yn ystod cyfnod sydd yr un mor hir â'r cylch etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid nodi hefyd nad oes gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl statudol mewn perthynas ag atebolrwydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Addasu ac ail-lunio ein dull archwilio ymhellach er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl

38 Byddwn yn parhau i drawsnewid ein dull archwilio dros y tair blynedd nesaf, er mwyn sicrhau y gallwn ateb y galw presennol a rhagweld datblygiadau yn y dyfodol ac ymateb iddynt, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf posibl.

39 Fel y nodir yn ein dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2015-16 yn ddiweddar gwnaethom sefydlu tîm astudiaethau ymchwiliol er mwyn atgyfnerthu ein capasiti archwilio fforensig a sicrhau ymatebion amserol i faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd, heb dynnu oddi ar ein gwaith archwilio statudol.

40 Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar bob agwedd ar ddatganoli ariannol i Gymru, ac yn paratoi ar gyfer goblygiadau cyfrifyddu ac archwilio penderfyniadau polisi Gweinidogol a deddfwriaeth gysylltiedig y DU/Cymru wrth iddynt ddod i'r amlwg. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2016. Bwriedir cyhoeddi adolygiad arall ym mis Medi 2017, cyn cyflwyno pwerau ariannol ym mis Ebrill 2018.

41 Cyflwynwyd barn ar gyfrifon tri awdurdod unedol yn llawer cynharach yn 2016 na blynyddoedd blaenorol. Defnyddir dysgu ôl-prosiect o'r archwiliadau hyn i lywio ymhellach ein gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno proses cau cyfrifon llywodraeth leol yn gyflymach yn ffurfiol rhwng 2017-18 a 2020-21.

42 Bellach, mae'r gwaith o ddatblygu ein dull seiliedig ar ganlyniadau newydd o ardystio grantiau wedi'i gwblhau hefyd ac mae'r dull yn cael ei dreialu mewn dau awdurdod unedol. Yna gwerthusir y cynllun peilot hwn yn ystod gwanwyn 2017 gyda'r nod o gyflwyno'r dull gweithredu mewn awdurdodau eraill yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

43 Ffactor arall sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn ail-lunio ein dull archwilio, yn arbennig yn y sector llywodraeth leol, yw'r ffaith bod newidiadau i fodelau darparu gwasanaethau a systemau ariannu yn cael eu cyflwyno'n gyflymach.

Cwestiwn 5 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem addasu ac ail-lunio ein dull archwilio ymhellach er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

Gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a data

44 Yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17 ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i ailflaenoriaethu £100,000 o'r arian a gawsom o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn datblygu opsiynau ar gyfer trawsnewid ac ail-alinio ein gwaith.

45 O 1 April 2016, dechreuwyd rhaglen waith o fewn Swyddfa Archwilio Cymru i hwyluso'r broses strategol o drawsnewid archwilio, gan weithredu ochr yn ochr â'r rhaglenni gwaith a gyflawnir fel rhan o'n cylch busnes blynyddol. Ffocws cychwynnol y rhaglen waith hon yw herio'r ffordd rydym yn defnyddio data a thechnoleg ar hyn o bryd, drwy herio'r hyn rydym yn ei gymryd yn ganiataol fel arfer a chynnig atebion ynglŷn â sut y gallem ddefnyddio technoleg newydd i drawsnewid ein prosesau archwilio a'n prosesau busnes.

46 Ar hyn o bryd mae meysydd ymchwilio allweddol yn cynnwys:

a **Caffael data** – mae'n ymwneud â sicrhau bod gennym fynediad parhaus at y data ariannol a'r data perfformiad cywir er mwyn llywio ein harchwiliadau ac y gallwn ddod o hyd i'r data yn hawdd.

b **Dadansoddi data** – mae'n ymwneud ag ystyried y posibilrwydd y gallem ddefnydddio uwch-dechnoleg i awtomeiddio a gwella ein prosesau ar gyfer dadansoddi a defnyddio data[12].

c **Gweithio hyblyg** – mae'n ymwneud â defnyddio technoleg i drawsnewid y ffordd y mae ein staff yn gwneud eu gwaith o ddydd i ddydd ac edrych ar yr adnoddau a ddefnyddir ganddynt, yn ogystal â'r cyfleusterau a'r lleoliadau lle maent yn gweithio.

d **Cynhyrchion archwilio** – mae'n ymwneud â defnyddio technoleg i drawsnewid y ffordd rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau.

47 Disgwylir i dîm y prosiect gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2017 er mwyn iddo eu hystyried ymhellach, eu datblygu a'u rhoi ar waith lle y bo'n briodol.

Cwestiwn 6 yr ymgynghoriad

I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem wneud defnydd mwy effeithiol o ddata a thechnoleg gwybodaeth?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol.

12 Tra'n sicrhau y caiff data personol eu defnyddio'n briodol, yn gyfreithlon ac yn deg.

Crynodeb a chwestiynau'r ymgynghoriad

Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif



Ein hamgylchedd gweithredu a'r ymateb

Ffactorau allweddol	Sut y bwriadwn ymateb
Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol	Parhau i gyflawni ein gwaith archwilio gyda phwyslais ar gyni a symleiddio ein prosesau busnes
Mae bellach yn ofynnol i drefniadau llywodraethu gael cwmpas ehangach	Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy
Mae'r dirwedd wleidyddol a'r dirwedd bolisi yn parhau i ddatblygu	Addasu ac ail-lunio ein dull archwilio ymhellach er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl
Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol	Gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a data

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1 I ba raddau rydych yn cytuno â'n nod a'n hamcanion allweddol arfaethedig?

2 I ba raddau rydych yn cytuno â'n hasesiad o'r ffactorau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros y tair blynedd nesaf?

3 I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem barhau i gyflawni ein gwaith archwilio gyda phwyslais ar gyni a symleiddio ein prosesau busnes?

4 I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem gyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy?

5 I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem addasu ac ail-lunio ein dull archwilio ymhellach er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl?

6 I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylem wneud defnydd mwy effeithiol o ddata a thechnoleg gwybodaeth?

Yn y ffurflen ymateb gofynnir i chi ddewis eich ymateb i bob cwestiwn o blith yr opsiynau canlynol, yn ogystal â rhoi sylwadau ategol:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno i ryw raddau
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno i ryw raddau
- Anghytuno'n gryf

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru